# Deufis

**Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi** **Mawrth-Ebrill 2025**

## Oedfaon y Sul

**(Am wybodaeth ddiweddaraf am oedfaon Brynhafod, gweler y dudalen What's app)**

**Sul 2 Mawrth**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog - Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Caersalem | 2.00 y pnawn | Gweinidog - Cymun |
| Noddfa | 3.30 y pnawn | Gweinidog - Cymun |

**Sul 9 Mawrth**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog - Cymun |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog - Cymun |

**Sul 16 Mawrth**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | Dim oedfa | |
| Noddfa | 10.00 y bore | Doniau'r eglwys |

**Sul 23 Mawrth**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog |
| Aberduar, Seion a Brynhafod (yn Brynhafod) | 2.00 y pnawn | Gweinidog |

**Sul 30 Mawrth**

***ABERDUAR 10. 30 OEDFA'R CYLCH***

***PARCHG ALED DAVIES, CHWILOG***

***NODDFA 5.00 OEDFA YNG NGOFAL YR YSGOL SUL***

**Sul 6 Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog - Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Caersalem | 2.00 y pnawn | Gweinidog - Cymun |
| Noddfa | 3.30 y pnawn | Gweinidog - Cymun |

**Sul 13 Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog - Cymun |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog - Cymun |

**Sul 20 Ebrill—Sul y Pasg**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa | 10.00 y bore | Cymun y Pasg |

GWASANAETH Y PASG YNG NGHARTREF
MAES-Y-FELIN, DREFACH 11.00 Y BORE

**Sul 27 Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa, Bethel a Chaersalem (yn Noddfa) | 10.00 y bore | Parchg Jill Tomos |
| Aberduar, Seion a Brynhafod (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Parchg Jill Tomos |

**GORYMDAITH DYDD GWENER Y GROGLITH**
**18 Ebrill**

**Yn codi o Parc Sant Germain 10.30; oedfa fer yng nghapel Emmaus 11.00—lluniaeth ysgafn i ddilyn**



# DYDD GWEDDI'R BYD
# NODDFA, 10.30 DYDD GWENER 7 MAWRTH

***Y thema eleni yw Salm 139: 14:***
***'Clodforaf di canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed; rhyfedd yw dy weithredoedd, a'm henaid a ŵyr hynny yn dda', a lluniwyd y gwasanaeth gan ferched***
***Cristnogol Ynysoedd Cook yng nghanol môr De'r Passifig. Cyrhaeddodd Cristnogaeth yno trwy law cenhadon o Brydain yn 1821, ac erbyn hyn mae dros 80 y cant yn arddel y ffydd. Dewch i wybod mwy amdanynt ac i ymuno â'n cyd-Gristnogion mewn gweddi ar draws y byd.***

*Cynhelir oedfa gyd-enwadol yn Noddfa am*
*10. 30 bore Gwener 7 Mawrth*



## OEDFA’R NADOLIG YM METHEL

**Cyflwynodd ieuenctid Capel Bethel, Silian stori’r geni draddodiadol yng nghwmni swyddog iechyd a diogelwch digon dadleugar nôl ym mis Rhagfyr. Cafwyd awyrgylch hyfryd yr Ŵyl a phob unigolyn wedi gwneud ei ran gyda’u hafiaith a’u brwdfrydedd arferol. Roedd hi’n fendigedig i weld y Capel yn gyfforddus lawn. Yn lwcus iawn, daeth Siôn Corn i ymuno â’r gwasanaeth, cyn iddo fe fynd yn rhy fishi! Ac wrth gwrs, yn ôl yr arfer, cafwyd gwin poeth a mins peis i ddilyn. Roedd hi’n braf gweld aelodau a ffrindiau’r Capel yn bresennol.**




**Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau, cofiwch droi at:**

**Wefan y Cylch,
Twitter
a Facebook**

**www.bedyddwyrgogleddteifi.org**

**Ewch hefyd i’n cyfrif Twitter
@BedyddGogTeifi**